

## **YMGYNGHORIAD AR Y CANLLAWIAU DYLUNIO, Y CANLLAWIAU CYFLAWNI A'R CYNLLUN GWEITHREDU TEITHIO LLESOL**

### **Ffurflen Ymateb**

**Enw** : Elinor Gwynn. Rheolwr Hamdden, Mynediad a Dysgu

**Sefydliad** : Cyfoeth Naturiol Cymru

**e-bost**: elinor.gwynn@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Dyddiad** : Awst 1<sup>af</sup> 2014

---

### **A. Ymgynghoriad - Canllawiau Dylunio**

#### **Cwestiynau Cyffredinol**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cefnogi'r dull gweithredu a gymerwyd yn y canllawiau mewn perthynas â llwybrau a chyfleusterau teithio llesol?**

Ydym

**Cwestiwn 2: Beth fydd effaith y canllawiau hyn arnoch chi, eich sefydliad, a/neu'r bobl y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli?**

Mae'r canllawiau yn debygol o olygu y bydd angen buddsoddi er mwyn uwchraddio llwybrau a chyfleusterau ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru os nodir eu bod yn rhan o lwybrau a rhwydweithiau Teithio Llesol.

Mae'r canllawiau yn debygol o olygu y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd ar gyfer darpariaeth Teithio Llesol briodol drwy ei rôl gyngori, e.e. mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau ar gynlluniau ffyrdd, a all olygu y bydd angen mwy o adnoddau a/neu feithrin sgiliau o fewn y sefydliad.

**Cwestiwn 3: A oes unrhyw beth sydd ar goll o'r canllawiau, neu na ddylid ei gynnwys, yn eich barn chi?**

Cyfeiriadau at asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol a natur nodedig tirluniau a chanllawiau ar wneud hynny, ac ar wella ansawdd a natur nodedig yr elfennau hyn drwy'r prosesau ar gyfer dylunio teithio llesol.

Canllawiau ar ddeall sut i droi'r dystiolaeth am y rhwystrau i gerdded a beicio yn ddatrysiadau dylunio teithio llesol, yn arbennig ar gyfer cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd neu gynulleidfaoedd newydd ar gyfer teithio llesol.

**Cwestiynau Penodol**

**Cwestiwn 4: A yw statws y ddogfen yn glir a'r ffordd y mae'n rhyngweithio â chanllawiau eraill megis y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd?**

Nac ydy. Mae cyfle i egluro ac atgyfnerthu'r ddogfen fel yr amlinellir yn yr ymateb i'r canllawiau dylunio (gweler yr ymateb i'r ymgynghoriad nesaf isod).

**Cwestiwn 5: A yw'r canllawiau cynllunio yn diffinio anghenion cerddwyr a beicwyr yn glir ac yn llawn?**

Ydynt, yn fras, ond mae'n bosibl y bydd angen rhagor o waith i lywio'r datrysiadau a'r dulliau gweithredu ar gyfer rhai cymunedau daearyddol neu grwpiau targed penodol. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys canllawiau manylach, gan gynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau, yn hyn o beth.

**Cwestiwn 6: A yw adran cynllunio rhwydwaith y ddogfen yn diffinio'r prosesau i'w rhoi ar waith gan awdurdodau lleol er mwyn cyflawni'r dyletswyddau sy'n rhan o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) yn glir?**

Yn gyffredinol, mae'r prosesau wedi'u nodi ond rydym o'r farn bod lle i ymhelaethu arnynt gan ddarparu, er enghraifft, mwy o fanylion am lefel y gweithgarwch ymgynghori a'r math o weithgarwch ymgynghori y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn ddigonol yn ystod pob cam o'r broses.

**Cwestiwn 7: A yw'r broses ar gyfer dylunio llwybrau teithio llesol ar gysylltiadau yn ddealladwy?**

Yn gyffredinol, ydy, ond nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn.

**Cwestiwn 8: A yw'r broses ar gyfer dylunio llwybrau teithio llesol ar gyffyrdd yn ddealladwy?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn.

**Cwestiwn 9: A oes unrhyw achos nodedig o wrthdaro rhwng y Manylion Safonol yn y canllawiau dylunio a safonau dylunio presennol awdurdodau lleol?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn ond noder yr ymateb i C16.

**Cwestiwn 10: A oes gennych unrhyw bryderon o ran y gallu i gymhwyso unrhyw rai o'r Manylion a Awgrymir neu'r Manylion Posibl?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn ond noder yr ymateb i C16.

**Cwestiwn 11: Beth yw eich barn am y penderfyniad i beidio â darparu manylion safonol mewn perthynas â chylchfannau confensiynol ar gyfer llwybrau teithio llesol yn y ddogfen hon?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn.

**Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am ymagwedd y ddogfen tuag at ddarparu llwybrau teithio llesol ar ffyrdd cyflymder uchel?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn.

**Cwestiwn 13: A ydych o'r farn ei bod yn ddefnyddiol cynnwys y manylion Elfen Ddylunio?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn ond noder yr ymateb i C16.

**Cwestiwn 14: A yw'r tri chategori sy'n rhan o'r Elfen Ddylunio (Manylion Safonol, Manylion a Awgrymir a Manylion Posibl) yn taro'r cydbwysedd cywir, gan roi canllawiau ar arfer sefydledig tra'n rhoi cyfle i arloesi?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn ond noder yr ymateb i C16.

**Cwestiwn 15: A yw'r Adnodd Archwilio Llwybrau Beicio yn darparu dull ymarferol o ddiffinio safon dderbiniol ar gyfer llwybrau beicio?**

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn arbenigo yn y maes hwn ond noder yr ymateb i C16.

**Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau cyffredinol a phenodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Nodwn er bod 'Deniadoldeb' wedi'i ddyfynnu fel ffactor i'w ystyried yn y canllawiau dylunio, na roddir sylw cyson iddo drwy'r canllawiau dylunio a chyflawni a'r Cynllun Gweithredu. Hefyd, mae'r canllawiau yn adlewyrchu dealltwriaeth wael ac anghyson o 'ddeniadoldeb' – er enghraifft ar dudalen 62 a thudalen 75, cyfeirir at ddeniadoldeb gan sôn am ddiffyg goleuadau a gwelededd gwael sydd efallai yn faterion diogelwch mwy amlwg. Ceir anghysondeb rhwng y dehongliad o ddeniadoldeb yn y tablau hyn ar dudalennau 62 a 75 a'r amcanion ar gyfer deniadoldeb a restrir ar dudalen 95. Gall manau gwyrdd a'r bywyd gwyllt sy'n rhan ohonynt, yn ogystal ag agosrwydd at nodweddion treftadaeth diddorol wella gwerthfawrogiad a mwynhad synhwyraidd a deallusol pobl o'r amgylcheddau awyr agored y maent yn teithio drwyddynt ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu'n effeithiol yn y canllawiau. Yn siomedig, dim ond enghreifftiau o dirlunio caled a ddefnyddir yn y delweddau gweledol a ddarperir yn y canllawiau (e.e. tudalen 31, ffotograff 6.1, tudalen 89) i annog pobl i feddwl am ddylunio ar gyfer teithio llesol. Nid oes unrhyw gyfeiriadau yn y canllawiau at asesu'r effeithiau ar yr amgylchedd naturiol na'i ddylunio mewn ffordd sy'n sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r amgylchedd (e.e. integreiddio â SUDS, cynnwys cynlluniau plannu) ac ymateb i ymdeimlad o le (e.e. drwy ddewis lliwiau yn ofalus ar gyfer deunyddiau arwyneb er mwyn bod yn gydnaws â cherrig adeiladu lleol). Ymddengys mai'r unig gyfeiriad yn y ddogfen at fod yn gydnaws ag amgylcheddau lleol yw'r cyfeiriad sy'n ymwneud â defnyddio arwyddion a marciau ffordd yn ofalus (tudalen 122).

Mae angen gwell canllawiau, gan gynnwys astudiaethau achos, er mwyn helpu awdurdodau lleol i wneud y canlynol; (a) asesu effeithiau unrhyw gynigion teithio llesol ar yr amgylchedd naturiol a (b) dylunio cynlluniau teithio llesol sy'n sicrhau bod manau ar gael i fyd natur, daeareg a threftadaeth hanesyddol/diwylliannol.

---

## **B. Ymgynghoriad - Canllawiau Cyflawni**

### **Cwestiynau Cyffredinol**

**Cwestiwn 1: A yw'r canllawiau cyflawni drafft yn darparu'r wybodaeth y bydd ei hangen ar awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf? Os nad ydynt, beth arall y mae angen ei gynnwys?**

#### ***i. Diffiniadau***

Byddem yn croesawu esboniad pellach o rai o'r diffiniadau. Er enghraifft, ymddengys fod cyfleusterau yn 'cynnwys cysgodfeydd beiciau/parcio/storio a thoiledau cyhoeddus'. A yw'r term yn eithrio cyfleusterau eraill neu a allai'r term hwn gwmpasu cyfleusterau eraill megis meinciau, goleuadau, biniau baw cŵn ac ati (yn wir, unrhyw beth sy'n gwella deniadoldeb ac yn hwyluso neu'n annog teithio llesol)?

## ***ii. Deall goblygiadau***

Cred Cyfoeth Naturiol Cymru y gall fod angen canllawiau ychwanegol ac enghreifftiau o arfer da er mwyn sicrhau bod holl adrannau perthnasol awdurdodau lleol (nid dim ond yr adrannau priffyrdd) yn deall goblygiadau'r dyletswyddau Teithio Llesol, a sut y mae angen eu hystyried a'u rhoi ar waith mewn modd cadarnhaol, yn unol ag ysbryd y ddeddfwriaeth, fel rhan o'u prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Yn ogystal, mae'n bosibl y byddai canllawiau i sefydliadau ac unigolion/busnesau eraill y gallai'r dyletswyddau hyn effeithio arnynt yn ddefnyddiol (e.e. nodiadau cyngor ar y goblygiadau i berchenogion tir/ landlordiaid cymdeithasol, datblygwyr, defnyddwyr y llwybrau, ysgolion ac ati).

## ***iii. Monitro/Datblygu data***

Gallai'r dyletswyddau osod cyfrifoldeb beichus ar Awdurdodau Lleol i gasglu data ar sut mae lefel y defnydd a wneir o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig yn newid dros amser. Mae'r canllawiau yn nodi y gall gwahanol systemau monitro fod yn addas: mae'r maes gwaith hwn yn heriol a chredwn fod angen i Lywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth a chymryd yr awenau wrth gydgyssylltu gweithgarwch monitro er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn mabwysiadu dull gweithredu cydlynol, fforddiadwy a digon cadarn. Mae angen i'r dull gweithredu hwn arwain at ddata ystyrlon sy'n gymharol hawdd i'w casglu, a dylai hwyluso'r gwaith o werthuso ac adolygu'r llwyddiant y mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ei gyflawni yn effeithiol (para 2.8.2).

Nid yw'r canllawiau yn ddigon clir o ran y math o ddata i'w casglu a'r dangosyddion perthnasol y dylid eu defnyddio (mewn perthynas ag ansawdd, swm, effaith ar unigolion a chymunedau - o lwybrau, cyfleusterau, darparu gwybodaeth ac ati). Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth am fonitro a chasglu data ar wasgar drwy'r ddwy gyfres o ganllawiau (a chyfeirir ati yn y Cynllun Gweithredu). Byddai'n fuddiol ei thynnu ynghyd mewn fformat clir, fel rhan o'r dull gweithredu cynhwysfawr o dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â monitro a gwerthuso a amlinellir yn y paragraff uchod.

Nid yw'r Cynllun Gweithredu, ar ei ffurf bresennol, yn darparu gwybodaeth ddigon manwl am ofynion monitro (fel yr awgrymir ym mhara 2.8.3). Credwn fod angen rhaglen monitro a gwerthuso gyffredinol unigol, o dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac wedi'i rhannu gan Awdurdodau Lleol a phartneriaid allweddol eraill.

## ***iv. Gofynion ymgynghori***

Fel yn achos y gofynion o ran datblygu data a monitro, ymddengys fod canllawiau ar ymgynghori ar wasgar drwy gydol y ddogfen, a'u bod wedi'u rhannu a'u dyblygu hefyd, i ryw raddau, rhwng y canllawiau dylunio a chyflawni. Gall fod yn ddefnyddiol llunio nodyn cyngor ategol i dywys awdurdodau lleol drwy'r gofynion ymgynghori yn ystod gwahanol gamau o'r broses o ddatblygu'r cynlluniau Teithio Llesol a'u rhoi ar waith, er mwyn darparu eglurder a

galluogi Awdurdodau Lleol i deimlo'n fwy hyderus bod trefniadau ymgynghori digonol ar waith ganddynt yn ystod pob cam.

#### ***v. Datblygu'r cynlluniau***

Gallai'r canllawiau ar y data i'w casglu fod yn gliriach. Er enghraifft, mae'r gofyniad ar gyfer y map llwybrau presennol yn cynnwys 'llwybrau a chyfleusterau yn yr anheddiad presennol' - a yw hyn yn cynnwys llwybrau drwy fannau gwyrdd, drwy barciau busnes a pharciau manwerthu ac ystadau tai, ar hyd llwybrau camlesi drwy warchodfeydd natur trefol ac ati? A oes perygl na fydd adrannau priffyrdd yn nodi'r amrywiaeth llawn o lwybrau sy'n bodoli eisoes oni chânt eu disgrifio'n fanylach yn y canllawiau?

Yn yr un modd, ar gyfer y mapiau rhwydwaith integredig, byddem yn annog awdurdodau i ddatblygu dulliau gweithredu creadigol, gan ystyried amrywiaeth o ddarpariaeth bosibl, gan gynnwys, er enghraifft, llwybrau ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, tir a reolir gan sefydliadau'r 3<sup>ydd</sup> sector, safleoedd sy'n eiddo i fusnesau preifat a chyfleustodau cyhoeddus a/neu a gaiff eu rheoli ganddynt a safleoedd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Gall fod yn ddefnyddiol darparu canllawiau ymarferol (o bosibl fel atodiad i'r prif ganllawiau) i dywys awdurdodau lleol drwy'r broses o ddatblygu cynlluniau rhwydwaith integredig - gan gwmpasu'r amrywiaeth lawn o weithgareddau cysylltiedig megis ymgynghori (mewnol ac allanol), marchnata, cyfathrebu, dylunio ac ati - a fyddai wedyn yn hwyluso'r broses o lunio cynlluniau gweithredu. Wrth nodi rhanddeiliaid posibl (mewnol ac allanol), bydd yn bwysig ymgysylltu nid yn unig â defnyddwyr gwasanaethau ond â sefydliadau a busnesau sy'n helpu i ategu'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r canllawiau yn cyfeirio at berchenogion tir unigol ond mae sefydliadau a chyrrff eraill - megis Cyfoeth Naturiol Cymru, rhai sefydliadau 3<sup>ydd</sup> sector a busnesau preifat a chwmnïau cyfleustodau - a allai gyfrannu at y broses o ddatblygu'r agenda teithio llesol a'i rhoi ar waith. Bydd cynlluniau eraill y dylid eu defnyddio i lywio cynigion teithio llesol yn cynnwys archwiliadau manau gwyrdd, cynlluniau rheoli adnoddau naturiol, cynlluniau seilwaith a chynlluniau ar gyfer rhaglenni i adeiladu ysgolion newydd.

Byddem yn annog awdurdodau i integreiddio eu cynlluniau teithio llesol â chynlluniau hamdden o fewn ardaloedd dynodedig a'r tu hwnt iddynt, ac hefyd i rannu a mabwysiadu'r arfer gorau mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd dynodedig. Rydym wedi awgrymu isod, yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu y byddai'n ddefnyddiol datblygu rhai enghreifftiau cynnar o gynlluniau teithio llesol a hamdden integredig er mwyn annog awdurdodau i fabwysiadu'r dull gweithredu hwn ledled Cymru.

#### ***vi. Rhoi'r cynlluniau teithio llesol ar waith***

Gall fod yn ddefnyddiol darparu templed ar gyfer cynlluniau gweithredu er mwyn dangos natur y wybodaeth a lefel y manylder i'w cynnwys, nid yn unig o ran y gwelliannau ffisegol i'r llwybrau a nodwyd ond hefyd ar gyfer weithgareddau cysylltiedig eraill megis gwelliannau i gyfleusterau cysylltiedig, marchnata, cyfathrebu, ymgynghori, monitro ac ati. Byddai

cynnwys terfynau amser ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau hyn, a sicrhau bod y cynlluniau gweithredu ar gael i'r cyhoedd, yn werthfawr o ran rhoi gwybodaeth i bobl a chymunedau o ran pryd y gallant ddisgwyl i'r gwelliannau gael eu cyflawni.

### **Cwestiwn 2: Ai'r dulliau gweithredu yn y canllawiau yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni gofynion y Ddeddf? Os na, pa ddulliau gweithredu fyddai'n fwy priodol a pham?**

Mae'r dulliau gweithredu a amlinellir yn ymddangos yn briodol ond bydd yn bwysig, drwy ddysgu a threfniadau adolygu rheolaidd, i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid addasu'r dulliau gweithredu a nodi dulliau gweithredu newydd er mwyn cyflawni'r canlyniad bwriadedig mor effeithiol â phosibl. Mae systemau eraill posibl, er enghraifft, na nodwyd hyd yn hyn, yn cynnwys nodi amodau sy'n gysylltiedig â theithio llesol o fewn datblygiadau a ariennir yn gyhoeddus (e.e. buddsoddiadau twristiaeth preifat a gefnogir gan gyllid Croeso Cymru, rhaglenni cymorth grant Cyfoeth Naturiol Cymru, rhaglenni buddsoddi cymunedol ac adfywio), a sicrhau bod unrhyw achos lle y caiff tir ei brynu gan adrannau awdurdodau lleol ac eithrio'r adran briffyrdd hefyd yn darparu ar gyfer teithio llesol (e.e. nid yw rhaglen adeiladu ysgolion ar gyfer y 21<sup>ain</sup> ganrif newydd bresennol Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Awdurdodau Lleol brynu unrhyw dir y tu hwnt i ôl-troed uniongyrchol yr ysgol *gohebiaeth bersonol*).

### **Cwestiwn 3: A fyddai'r camau gweithredu yn y canllawiau cyflawni yn arwain at unrhyw gostau i chi, eich sefydliad a/neu'r bobl y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli?**

Gallai Cyfoeth Naturiol Cymru fynd i gostau yn uwchraddio ac yn cynnal a chadw llwybrau a chyfleusterau ar dir a reolir ganddo, os caiff y tir hwnnw ei nodi fel rhan o gynlluniau rhwydwaith presennol neu integredig.

Mae'r canllawiau yn debygol o olygu y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth chwilio am gyfleoedd ar gyfer darpariaeth Teithio Llesol briodol drwy ei rôl gynghori, e.e. mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ac ymgynghoriadau ar gynlluniau ffyrdd, a all olygu y bydd angen mwy o adnoddau a/neu feithrin sgiliau o fewn y sefydliad.

### **Cwestiwn 4: A yw'r cysylltiadau rhwng y canllawiau cyflawni a'r canllawiau dylunio yn ddigon clir?**

Teimlwn y gellid adolygu ac atgyfnerthu'r dogfennau presennol er mwyn lleihau'r elfennau o ailadrodd, dyblygu a rhannu sy'n amlwg ar hyn o bryd cymaint â phosibl, ac er mwyn rhoi mwy o fanylion ar rai materion, fel yr amlinellwyd mewn ymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad. Teimlwn y gellid cyfuno'r dogfennau i greu un llawlyfr dylunio a chanllawiau unigol y gellir ei ategu â nodiadau cyngor manwl, templedau, astudiaethau achos ac ati yn ôl y gofyn - oherwydd gallai hyn fod yn fwy ymarferol ac yn llai beichus na chael dwy ddogfen ar wahân. Gallai'r Cynllun Gweithredu barhau fel dogfen annibynnol ar wahân ond cysylltiedig a gellid ei ehangu i gynnwys cynlluniau gweithredu lleol, y cynllun monitro a

gwerthuso cyffredinol, arfer gorau/astudiaethau achos/enghreifftiau yn deillio o gamau gweithredu a nodwyd.

**Cwestiwn 5: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach ar y cwestiwn hwn.

Isod ceir cwestiynau am elfennau penodol o'r canllawiau.

**Cwestiwn 1: A yw'r nodweddion a'r cyfleusterau a restrir i'w cynnwys yn y mapiau yn nodi'r holl nodweddion a chyfleusterau hynny y byddai eu hangen er mwyn i bobl benderfynu ble i deithio? A oes unrhyw nodweddion a chyfleusterau nad oes angen eu cynnwys?**

Ymhlith y nodweddion eraill i'w cynnwys (yn ogystal â pharciau), mae gwarchodfeydd natur hygyrch a choedwigoedd.

Mae'r canllawiau yn caniatáu disgresiwn o ran beth i'w gynnwys. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau yn glir o ran y broses y dylid ei mabwysiadu er mwyn gwneud penderfyniad o ran beth i'w gynnwys. A ddylai'r gweithgaredd hwn fod yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn i bobl a chymunedau allu benderfynu drostynt eu hunain beth sy'n bwysig iddynt hwy yn eu hardaloedd lleol? Cyfeirir at yr angen am ganllawiau manylach ar agweddau o'r fath yn yr ymateb i C1 uchod.

**Cwestiwn 2: Beth yw eich barn ar y prosesau ymgynghori ar gyfer y mapiau llwybrau presennol a'r mapiau rhwydwaith integredig?**

Gweler yr ymatebion blaenorol.

**Cwestiwn 3: Beth yw eich barn ar y canllawiau ar sut y dylai awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau i wneud gwelliannau blynyddol i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol?**

Bydd cyflawni gwelliannau blynyddol yn heriol, yn enwedig yn yr hinsawdd sydd ohoni ac heb gyllid ychwanegol i ymgymryd â llawer o'r gweithgareddau y cyfeirir atynt yn y canllawiau. Ymddengys fod llwyddiant yn dibynnu i raddau helaeth ar annog trafodaethau



rhwng adrannau ac ar draws sectorau ac ar feithrin cydberthnasau a threfniadau cydweithredu cadarn, a fydd yn gofyn am gymorth ac ymrwymiad penodedig ar bob lefel yn arbennig o fewn awdurdodau lleol ac adrannau Llywodraeth Cymru. Bydd yn bwysig cydnabod y rhwystrau a nodir i gyflawni, eu deall ac ymateb yn briodol iddynt, yn arbennig yn ystod blynyddoedd cynnar gweithredu'r Ddeddf.

**Cwestiwn 4: Beth yw eich barn ar yr amgylchiadau lle y byddai'n afresymol gwneud gwelliannau i gerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf Priffyrdd?**

Dim sylwadau ar y cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn o ran sut y gall awdurdodau lleol hyrwyddo teithio llesol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf?**

Bydd yr agwedd hon yn ei gwneud yn ofynnol i staff weithio ar draws adrannau awdurdodau lleol a bydd hefyd yn gofyn am gymorth gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â nifer o adrannau Llywodraeth Cymru. Byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru ddangos arweinyddiaeth yn y maes hwn a gweithio gydag un awdurdod lleol (a phartneriaid allweddol eraill) i ddatblygu dull gweithredu enghreifftiol mewn perthynas â hyrwyddo teithio llesol, a fydd hefyd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r heriau cysylltiedig i'r partneriaid.

---

## **C. Ymgynghoriad - Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r prif rwystrau i gerdded a beicio a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu?**

Ydym

**Nodwch ragor o fanylion isod:**

Ymddengys fod y rhwystrau allweddol wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Drafft ond byddai'n ddefnyddiol ategu canfyddiadau ymchwil presennol â thystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â rhaglenni a mentrau penodol (megis Cerdded i'r Ysgol, Hyfforddiant Beicio Safonol Cenedlaethol) er mwyn deall y rhwystrau sy'n wynebu grwpiau neu gymunedau penodol a dargedir gan ymyriadau o'r fath, er mwyn gallu datblygu dulliau gweithredu effeithiol i gyflawni dyheadau teithio llesol Llywodraeth Cymru.

## Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r camau a nodwyd gennym i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gerdded a beicio?

Yn rhannol

Nodwch ragor o fanylion isod:

Ymddengys fod y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar astudiaeth eang o weithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol mewn rhyw ffordd i gerdded, beicio ac ymarfer corff. Fel y cyfryw, mae'n amlwg yn cynnwys rhai gweithgareddau a fydd yn helpu i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Teithio Llesol ond ar y cyfan, mae'n cyfleu ymdeimlad o gasgliad di-ffocws, ar hap braidd o gamau gweithredu, rhaglenni a phrosiectau.

Noda Cyfoeth Naturiol Cymru fod angen rhywfaint o waith aralleirio sylfaenol er mwyn creu Cynllun â ffocws a blaenoriaethau mwy amlwg sy'n cynnwys rolau a chyfrifoldebau wedi'u dyrannu'n glir. Mae'r materion penodol y mae angen ymdrin â hwy yn y Cynllun presennol fel a ganlyn:

- **Yr angen am ddull gweithredu strategol cryfach a mwy cyson drwy gydol y Cynllun Gweithredu.** Ar hyn o bryd, nid yw'r cynllun yn mynegi amcanion ac amserlen glir ar gyfer pob categori y gellir datblygu cyfres resymegol o gamau gweithredu ohonynt, ac wedyn nodi cyfres o bartneriaid posibl i'w rhoi ar waith.
- **Yr angen i gamau gweithredu fod yn glir, wedi'u fframio mewn ffordd gyson, yn berthnasol, yn rhesymegol ac wedi'u blaenoriaethu.** Prin iawn yw'r cyswllt rhwng rhai o'r camau gweithredu â Theithio Llesol. Er enghraifft, roedd rhaglen CAN yn canolbwyntio ar ddarparu seilwaith hamdden a phrin iawn yw'r safleoedd sy'n debygol o fod o fewn cwrmpas gwaith cynllunio Teithio Llesol ar gyfer yr aneddiadau penodedig. Mae'r un peth yn wir am raglen Llwybr Arfordir Cymru a chyrchfannau beicio mynydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni chynlluniwyd yr ymyriadau hyn yn benodol i hyrwyddo teithio llesol ac er y gallant helpu i greu diwylliant cerdded a beicio yng Nghymru, nid ydynt yn debygol o fod yn brosiectau blaenoriaeth ar gyfer datblygu seilwaith Teithio Llesol. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun ar hyn o bryd yn gymysgedd o gamau gweithredu (e.e. Annog cydweithrediad.....) a theitlau prosiectau/rhaglenni (e.e. Dewch i Gerdded Cymru) neu benawdau syml (Canllawiau ar weithgarwch corfforol a gwybodaeth i ymarferwyr iechyd). Mae angen fframio datganiadau camau gweithredu fel datganiadau, ac mae angen i'r Cynllun fod yn fwy penodol o ran y camau y mae angen eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion Teithio Llesol ym mhob categori. Ystyriwch, er enghraifft, C5 'datblygu NERS ymhellach'. Ym mha ffordd y mae angen ei ddatblygu ymhellach yn benodol ar gyfer amcanion Teithio Llesol? Beth y mae'r dystiolaeth yn ei ddatgan ar hyn o bryd o ran llwyddiant neu fethiant y rhaglen hon a sut mae'r ddealltwriaeth hon yn trosi i gamau gweithredu clir y gall partneriaid penodol eu rhoi ar waith dros gyfnod penodedig o amser? Mae angen mwy o naratif ar lawer o'r camau gweithredu er mwyn egluro'n well sut y maent yn cyflawni ar hyn o bryd mewn perthynas ag amcanion Teithio Llesol, pa faterion neu rwystrau sy'n effeithio ar y cyflawniad hwnnw, a sut y gellid eu goresgyn.
- **Yr angen i nodi partneriaid mewn ffordd fwy deallus ac yn fwy penodol.** Mae'r rhestr bresennol o arweinwyr a phartneriaid yn eang ac yn annelwig ac nid yw'n esgor ar ymdeimlad cadarn o ymrwymiad i flaenoriaethu a chyflawni camau gweithredu. Byddai mabwysiadu dull mwy strategol a rhesymegol o nodi a

blaenoriaethu camau gweithredu, fel y disgrifir uchod, yn golygu y gellid nodi partneriaid cyflawni mewn ffordd fwy penodol. Os yw'r camau gweithredu yn cynnwys sawl elfen lle mae angen arweinyddiaeth ac ymrwymiad gan sefydliadau gwahanol, mae'n bwysig nodi hyn yn y cynllun a sicrhau y caiff rolau a chyfrifoldebau eu neilltuo'n glir i bob cam gweithredu a'i is-gydrannau.

### **Cwestiwn 3: A oes unrhyw gamau gweithredu eraill y credwch y dylid eu cynnwys yn y cynllun gweithredu? Rhestrwch hwy a nodwch pwy ddylai fod yn gyfrifol am eu cymryd.**

Oes

Nodwch ragor o fanylion isod:

Mae'r maes sy'n ymddangos yn wan iawn neu sydd wedi'i hepgor yn llwyr i ryw raddau o'r cynllun yn ymwneud â darparu manau gwyrdd hygyrch yn yr hirdymor o fewn ac o amgylch aneddiadau - yn ogystal â chynnal a chadw a rheoli manau gwyrdd sy'n bodoli eisoes yn agos at gartrefi pobl ac ar lwybrau teithio llesol posibl, mae hyn hefyd yn cynnwys darparu manau gwyrdd hygyrch newydd fel rhan o waith datblygu newydd. O ystyried y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg (o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2011-12) am dueddiadau o ran ymddygiad hamdden, mae manau gwyrdd hygyrch sy'n agos at gartrefi pobl yn cyfrannu'n sylweddol at greu diwylliant o gerdded a beicio ac yn rhoi cyfle i ddarparu llwybrau teithio llesol diogel ac atyniadol o fewn rhwydweithiau ehangach. Teimlwn y dylid darparu hyfforddiant a chanllawiau i staff nad ydynt yn gweithio o fewn adrannau priffyrdd mewn Awdurdodau Lleol (e.e. Adrannau Cynllunio, Adrannau Cefn Gwlad), yn ogystal ag i staff cynghori perthnasol mewn sefydliadau eraill, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r agenda Teithio Llesol, a meithrin ymrwymiad cadarn i greu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a hamdden drwy sicrhau manau gwyrdd hygyrch o ansawdd uchel o fewn ardaloedd penodedig ac o amgylch yr ardaloedd hynny.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cam gweithredu i ddatblygu dulliau gweithredu enghreifftiol sy'n integreiddio gwaith cynllunio Teithio Llesol a gwaith cynllunio hamdden o fewn aneddiadau penodedig ac o amgylch yr aneddiadau hynny (ac ar draws ffiniau Awdurdodau Lleol) er mwyn dangos arfer da a rhannu dysgu ledled Cymru, a rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae'r adran ar gasglu a rhannu tystiolaeth hefyd yn wan yn y cynllun. Ar ôl pennu amcanion allweddol o fewn y cynllun ac ar ôl nodi'r gweithgareddau blaenoriaeth a fydd fwyaf effeithiol wrth gyflawni'r amcanion hyn dros yr amserlenni penodedig, bydd yn bwysig sicrhau y caiff cynnydd ei fonitro ac y caiff effeithiolrwydd y camau gweithredu ei asesu gan Lywodraeth Cymru a'r partneriaid cyflawni.

Felly byddem yn awgrymu y dylid cynnwys adran ychwanegol a fydd yn disgrifio'n fanylach sut y caiff y Cynllun a'r camau gweithredu o'i fewn eu monitro a'u gwerthuso, a sut y caiff tystiolaeth eraill ei chasglu er mwyn helpu i lywio'r cynllun wrth iddo gael ei roi ar waith ac wedyn ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ac eraill.

Byddem hefyd yn awgrymu y dylai'r Cynllun Gweithredu nodi, mewn adran ar wahân, drefniadau llywodraethu a chyfathrebu ar gyfer y dyfodol a fydd yn helpu i sicrhau ymgysylltiad a chydgyssylltiad effeithiol, arweinyddiaeth gadarn a chynhwysol a chyfleoedd dysgu parhaus a chyfleoedd i rannu arfer gorau rhwng pob sector, yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Canllawiau Dylunio yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio ac yn dyfynnu tystiolaeth o'r Trefi Arddangos Beicio yn Lloegr (tudalen 5) bod ymrwymiad gwleidyddol, timau cyflawni medrus, ymgysylltu, annog a hyrwyddo yr un mor bwysig â'r ddarpariaeth seilwaith wrth roi rhaglen teithio llesol lwyddiannus ar waith (Cycling England 2010). Dylai'r cynllun gweithredu sicrhau ei fod wedi nodi camau gweithredu a fydd yn ymdrin â gofynion ym mhob maes y gwyddys eu bod yn effeithio ar y broses o gyflawni amcanion teithio llesol.

**Cwestiwn 4: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, dywedwch wrthym isod:**

**Nodwch yma:**

Disgrifir prif bryderon Cyfoeth Naturiol Cymru am y Cynllun Gweithredu yn yr ymatebion i C2 a C3 uchod. Byddem yn croesawu cyfle i helpu Llywodraeth Cymru i adolygu'r Cynllun Gweithredu presennol yn unol â'r awgrymiadau uchod.

Elinor Gwynn, Rheolwr Hamdden, Mynediad a Dysgu, Cyfoeth Naturiol Cymru,  
Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DA

[elinor.gwynn@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:elinor.gwynn@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)